

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2022

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 26 GORFFENNAF 2022** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022 (copi ynghlwm).

5 ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â'R CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LESDDALIADOL) I DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL (Tudalennau 15 - 78)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau, (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol yn ymwneud â'r cynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol, gan roi sylw i ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu.

6 Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (Tudalennau 79 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd, (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo datblygu Rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin ymhellach, dirprwyo awdurdod i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Sir Ddinbych ar gyfer cynhwysiant yn y Strategaeth Fuddsoddi Ranbarthol, ac i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer cyflwyno'r Strategaeth a chyflawni'r rhaglen.

7 CAFFAEL GWASANAETH CEFNOGI NEWYDD AR GYFER LLETY DROS DRO MEWN ARGYFWNG (ATAL DIGARTREFEDD) (Tudalennau 89 - 138)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo dechrau caffael ar gyfer gwasanaeth gefnogi newydd ar gyfer llety dros dro mewn argyfwng i rai digartref.

8 CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU - BAND B (Tudalennau 139 - 150)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gill German, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, (copi ynghlwm) ar ganfyddiadau adolygiad y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg o'r broses flaenoriaethu ar gyfer Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, yn unol â chais y Cyngor ym mis Ionawr 2022.

9 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 151 - 164)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 165 - 170)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Gwyneth Ellis
Gill German
Elen Heaton
Julie Matthews
Jason McLellan

Barry Mellor
Win Mullen-James
Rhys Thomas
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned